**Grŵp yr Economi, y Trysorlys a'r Cyfansoddiad**
**Economy, Treasury and Constitution Group**

**Cyfarwyddwr Cyffredinol / Director General**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mark Isherwood AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

21 Mawrth 2024

Annwyl Gadeirydd

**FFERM GILESTONE**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 26 Chwefror yn gofyn am eglurhad ar ddau bwynt ychwanegol yn dilyn ystyriaeth y Pwyllgor o'm llythyr dyddiedig 2 Chwefror ynghylch Fferm Gilestone. Gweler isod fy ymatebion i gwestiynau'r Pwyllgor.

*Allwch chi gadarnhau fod Llywodraeth Cymru wedi ceisio prisiad newydd o'r tir, ar ôl darganfod y gweilch ar y safle? Yn flaenorol, dywedwyd wrth y pwyllgor fod gan y fferm werth marchnadol o £4.35m. Os oes prisiad newydd ar gael, a oes modd rhannu'r prisiad hwn gyda'r Pwyllgor? Os na chafwyd prisiad newydd, pam ddim?*

Cafwyd prisiad allanol o Fferm Gilestone ym mis Gorffennaf 2023 cyn inni wybod fod y gweilch wedi cyrraedd. Bryd hynny, cafodd yr eiddo brisiad o £4.25m, sef y pris y talodd Llywodraeth Cymru am yr ased. Mae'r ffaith bod yr adar wedi cyrraedd yn golygu fod gan y safle ddatganiad unigryw, a'n bod ers hynny wedi derbyn a gweithredu cynllun cadwraeth ar gyfer y gweilch. O edrych ar y sefyllfa, byddai prisiad diwygiedig cadarn yn anodd ei gael; mae natur unigryw y safle a'r sefyllfa yn golygu bod diffyg tystiolaeth debyg a/neu empirig i gadarnhau newid mewn gwerth naill ai i fyny neu i lawr. Serch hynny, bydd Alder King yn cynnal prisiad cyfredol mewn egwyddor o'r ased fel rhan o Brisiad Blynyddol holl asedau Llywodraeth Cymru. Dylai'r prisiad hwnnw fod ar gael ddechrau Mai, a byddaf yn rhoi gwybod i chi a'r Pwyllgor beth yw'r canfyddiadau.

*Allwch chi gadarnhau yr incwm a gafwyd o'r Tenantiaeth Busnes Fferm sydd ar y safle ar hyn o bryd?*

Cyfanswm yr incwm a gafwyd o'r Denantiaeth Busnes Fferm flaenorol hyd at Dachwedd 2023 oedd £37,753. Mae Tenantiaeth blwyddyn newydd ar gyfer Busnes Fferm wedi'i gytuno gyda'r tenant presennol ar gyfer tymor lesio hyd at Dachwedd 2024 Bydd yr

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE


Parc Cathays/Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ

Tel/Ffôn: 0300 025 6162
E-Bost/E-Mail: andrew.slade@gov.wales

anfoneb gyntaf o £16,300 o rhent o dan y denantiaeth newydd yn cael ei chyflwyno ym mis Mai, a'r ail o £16,300 yn cael ei roi ym mis Hydref. Bydd unrhyw elw rhent hefyd yn cael ei roi ym mis Mai a Hydref.

Gyda dymuniadau gorau.

Yn gywir



**Andrew Slade**
Cyfarwyddwr Cyffredinol, yr Economi, y Trysorlys a'r Cyfansoddiad